



Ein cyf/Our ref VG/00485/20

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

16 Mawrth 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Chwefror ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch cynigion Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i wneud newidiadau i wasanaethau iechyd yn y rhanbarth.

Yn 2014, cynhaliodd y bwrdd iechyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar gynigion Rhaglen De Cymru i fynd i'r afael â'r heriau mawr a wynebir gan lawer o ysbytai o ran recriwtio a chadw staff medrus iawn mewn meysydd arbenigol penodol. Arweiniodd yr ymgynghoriad at gytundeb i wneud nifer o newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, gan gynnwys newidiadau i wasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae rhai o'r newidiadau hyn wedi'u cyflawni'n barod.

Lle na weithredwyd newidiadau, mae llawer o'r materion a ysgogodd yr ymgynghoriad gwreiddiol yn parhau neu wedi gwaethygu. Fodd bynnag, o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers 2014, mae'r bwrdd iechyd yn ystyried yn awr ai canlyniad Rhaglen De Cymru yw'r ffordd orau ymlaen o hyd. Trafodwyd pedwar opsiwn ar gyfer dyfodol gwasanaethau damweiniau ac achosion brys (A&E) yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yng nghyfarfod y Bwrdd ar 30 Ionawr. Roedd y rhain yn cynnwys yr opsiwn i sefydlu uned mân anafiadau yn lle A&E, fel y cytunwyd yn Rhaglen De Cymru, ynghyd ag opsiynau eraill a fyddai'n golygu bod gwasanaeth A&E yn aros ar y safle.

Wrth benderfynu pa un o'r opsiynau hyn sy'n galluogi darparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy i bobl Cwm Taf, rwy'n disgwyl i'r Bwrdd Iechyd weithio'n agos gyda'r staff, y cyhoedd a'r holl bartneriaid allweddol yn unol â'r canllawiau presennol ar newid gwasanaethau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar hyn o bryd, mae'r cynigion yn dal yn faterion i'r Bwrdd Iechyd benderfynu arnynt. Fodd bynnag, mae'n bosibl, yn unol â'r canllawiau, y caiff y penderfyniadau terfynol eu cyfeirio ataf i'w hystyried. Rwy'n gobeithio y byddwch yn gwerthfawrogi, felly, na allaf wneud sylwadau ar unrhyw rai o'r cynigion ar hyn o bryd, gan y gallai hynny amharu ar fy rôl yn y broses yn y dyfodol.

Rwy'n eich annog, fodd bynnag, i ymgysylltu â'r bwrdd iechyd a lleisio barn wrth helpu i lunio gwasanaethau yn y dyfodol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut y gallwch gymryd rhan yma:

<https://cwmtafmorgannwg.wales/proposed-service-changes-at-royal-glamorgan-hospital/>

Diolch eto am roi o'ch amser i ysgrifennu atom am y mater hwn.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Vaughan Gething AC/AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services